# Erledigaeth

Nid yr Iddewon oedd yr unig bobl i gael eu herlid yn yr Ail Ryfel Byd. Cafodd pawb nad oedd yn ffitio i syniad cul y Natsïaid o beth oedd yn 'normal' eu targedu.

**Sipsiwn**

Y *Porrajmos* (Y Traflyncu) yw'r term (priodol iawn) a ddefnyddir i ddisgrifio hil-laddiad y Natsïaid o boblogaeth Roma a Sinti (Sipsiwn) Ewrop. Bu farw dros 200,000 o sipsiwn, naill ai trwy gael eu llofruddio neu oherwydd newyn neu haint.

Rhwng 1939 a 1940 sefydlwyd gwersylloedd llafur ar gyfer 'pobl sy'n osgoi gwaith neu yn byw trwy dorcyfraith' a gyrrwyd sipsiwn yno. Fel yr Iddewon, roedd y sipsiwn wedi dioddef canrifoedd o anffafriaeth hiliol. Yn dilyn Deddfau Nuremburg ni chaent briodi Ariaid ac ni châi'r plant fynd i ysgolion cyhoeddus. Roedd hi hefyd yn fwyfwy anodd iddynt gael gwaith.

Dwysaodd yr erledigaeth yn ystod y rhyfel ac fe'u cludwyd fel anifeiliaid i'r lladdfa i wersylloedd fel Dachau ac Auschwitz.

**Hoywon**

Ddechrau'r ugeinfed ganrif, Berlin oedd un o ddinasoedd mwyaf rhyddfrydol Ewrop gyda nifer o fudiadau i bobl hoyw a'r 'Institute for Sexual Science' yn flaengar.

Ym mis Mai 1933 trawsnewidiwyd popeth. Llosgwyd holl ddogfennau'r 'Institute' a chaewyd pob sefydliad i hoywon. Dihangodd rhai ohonynt i rannau eraill o Ewrop gan briodi i osgoi erledigaeth, a dioddef trawma seicolegol. Nid i wersylloedd crynhoi y gyrrwyd y rhan fwyaf o'r rhai oedd ar ôl ond i garchardai'r heddlu ble cawsant driniaethau annynol a gwnaethpwyd arbrofion erchyll arnynt.

**Pobl anabl a Rhaglen Euthanasia T4**

Ym marn y Natsïaid roedd pobl gydag anabledd corfforol neu feddyliol yn ddrwg i les y blaid a phasiwyd deddf i sterileiddio unrhyw un oedd ddim yn 'ffit'.Yna, yn 1939 dechreuwyd lladd plant ac oedolion anabl gan ddweud wrth y rhieni bod eu plant wedi cael eu symud i rywle arall i gael gwell gofal. Yna dywedwyd wrthynt eu bod wedi marw o niwmonia.

Aeth pethau o ddrwg i waeth. Agorwyd 6 chanolfan lladd. Yn hytrach na'u rhoi i gysgu gyda chwistrelliad dechreuwyd eu taflu i'r ffyrnau nwy. Amcangyfrifir bod 250,000 wedi eu lladd.

**Pobl ddu**

Er na ddilewyd pobl ddu yn systematig, cafodd llawer eu herlid a'u llofruddio. Yn *Mein Kampf*, cyhuddodd Hitler yr Iddewon o 'ddod â Negroaid i'r Rhine i ddifetha'r hil wen' (oherwydd eu bod yn cael perthynas rywiol â'r Almaenwyr). Cafodd y plant o hil gymysg eu sterileiddio – heb anaesthetic.

Câi'r carcharorion rhyfel croenddu eu trin yn llawer mwy creulon na'r rhai croenwyn, a lladdwyd rhai.

**Eraill**

Roedd lleiafrifoedd eraill, fel Tystion Jehofa, hefyd yn cael eu herlid. Roedd bod yn un o Dystion Jehofa yn anghyfreithlon a charcharwyd miloedd am wrthod tyngu llw o ffyddlondeb i'r Natsïaid. Llofruddiwyd oddeutu 2,000 am wrthod mynd i ryfel.

Yr un dynged gafodd y rhai oedd yn erbyn sosialaeth cenedlaethol fel y Comiwnyddion, y Sosialwyr ac arweinyddion Undebau Llafur.

Ym marn y Natsïaid roedd pobl Gwlad Pŵyl a gwledydd Slafonig eraill yn israddol. Rhwng 1939 a 1945 allfudwyd o leiaf 1.5 miliwn o Bwylwyr i'r Almaen i wneud llafur gorfodol. Amcangyfrifir bod yr Almaenwyr wedi lladd o leiaf 1.9 miliwn o Bwylwyr (oedd ddim yn Iddewon) yn ystod yr Ail Ryfel Byd.